# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 10 Gorffennaf 2017

Amser: 04.00 - 16.18

Gellir gwylio'r cyfarfod ar [Senedd TV](http://senedd.tv/cy/4115) yn:

http://senedd.tv/cy/4115

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Neil McEvoy AC<br>Rhianon Passmore AC |
| Tystion: | Dr Andrew Goodall, Llywodraeth Cymru<br>Alan Brace, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Huw Vaughan Thomas - Archwilydd Cyffredinol Cymru<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Jonathan Baxter (Ymchwilydd)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Trawsgrifiad**

Gweld trawsgrifiad o'r cyfarfod (PDF 999KB) Gweld fel HTML (999KB)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.
1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Lee Waters AC. Ni chafwyd dirprwy ar ei ran.

## 2 Papur(au) i'w nodi:

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.
2.2 Trefniadau Llywodraethu ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru - Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu (29 Mehefin 2017). Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn gofyn iddynt graffu ar Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon a'r Gweinidog dros Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y mater hwn, yn ystod eu sesiynau craffu rheolaidd ar waith Gweinidogion.

### 2.1 Hysbysiad o Swyddog Cyfrifyddu Ychwanegol yng Nghyllid a Thollau EM (13 Mehefin 2017)

### 2.2 Trefniadau Llywodraethu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr: Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru - Trosolwg o Drefniadau Llywodraethu (29 Mehefin 2017).

### 2.3 Llywodraeth Cymru yn cyllido Kancoat Cyf: Llythyr gan y Prif Weinidog (28 Mehefin 2017)

### 2.4 Cyfoeth Naturiol Cymru: Ymateb i adroddiad y Pwyllgor

## 3 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Sesiwn dystiolaeth

3.1 Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Dr Andrew Goodall, Cyfarwyddwr Cyffredinol/Prif Weithredwr GIG ac Alan Brace, Cyfarwyddwr Cyllid, Llywodraeth Cymru fel rhan o'i ymchwiliad i Weithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014.

3.2 Cytunodd Dr Goodall i anfon manylion pellach am y newidiadau yn y dangosyddion perfformiad sydd wedi digwydd yn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru.

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Gweithredu Deddf Cyllid y GIG (Cymru) 2014: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Trafododd yr Aelodau y dystiolaeth a gafwyd a chytunwyd i gyhoeddi adroddiad byr.

## 6 Blaenraglen waith: Trafod blaenraglen waith Hydref 2017

6.1 Bu’r Aelodau'n trafod y flaenraglen waith a nodwyd ei chynnwys.
6.2 Trafododd yr Aelodau y llythyr drafft ar Gylchdaith Cymru, a'i gytuno, yn amodol ar un neu ddau o fân newidiadau.

## 7 Ymchwiliad i oruchwyliaeth reoleiddiol ar Gymdeithasau Tai: Trafod yr adroddiad drafft

7.1 Trafododd y Pwyllgor yr adroddiad drafft ac awgrymodd nifer o newidiadau. Bydd y Clercod yn cylchredeg fersiwn ddiwygiedig yn dangos y newidiadau, drwy e-bost.